OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 191

# Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

## RHAN 13

## TALIADAU, GORDALIADAU AC ADENNILL

### PENNOD 2

### TALU BENTHYCIAD AT FFIOEDD DYSGU

**Talu benthyciad at ffioedd dysgu**

**83.**—(1) Pan fo benthyciad at ffioedd dysgu yn daladwy i fyfyriwr cymwys, rhaid i Weinidogion Cymru dalu'r swm hwnnw i'r awdurdod academaidd y mae'r myfyriwr yn atebol i wneud taliad iddo.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru dalu'r swm hwnnw mewn rhandaliadau neu mewn un cyfandaliad.

**Gofynion ar gyfer talu'r benthyciad at ffioedd dysgu**

**84.**—(1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw daliad o dan reoliad 83 oni bai eu bod wedi cael gan yr awdurdod academaidd—

(a) cais am daliad mewn cysylltiad â'r myfyriwr cymwys, a

(b) cadarnhad ysgrifenedig bod y myfyriwr yn ymgymryd â'r cwrs dynodedig.

(2) Rhaid i'r cadarnhad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(b)—

(a) mewn perthynas â'r taliad cyntaf (neu'r unig daliad) mewn cysylltiad â'r cwrs, gadarnhau bod y myfyriwr wedi ymrestru ar y cwrs presennol ac wedi dechrau ymgymryd ag ef;

(b) mewn perthynas ag unrhyw daliadau dilynol mewn cysylltiad â'r cwrs, gadarnhau bod y myfyriwr yn parhau i fod wedi ymrestru ar y cwrs ac yn parhau i ymgymryd â'r cwrs.